BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO

CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

HWB CYDLYNU ARLOESI RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

CARDIFF AND VALE REGIONAL INNOVATION CO-ORDINATION HUB

# Llywodraethu

Mae llywodraethu yn darparu sylfeini cadarn ar gyfer arloesi a mabwysiadu effeithiol.

## Llywodraethu: diffiniad

Llywodraethu yw'r "system a ddefnyddir gan sefydliad i gyfeirio a rheoli ei swyddogaethau ac ymwneud â'i rhanddeiliaid" Trysorlys EM

Mewn geiriau eraill, y ffordd y mae sefydliadau'n rheoli eu busnes, yn pennu strategaethau ac amcanion ac yn mynd ati i gyflawni'r amcanion hyn.

## Diwydrwydd Dyladwy

Mae diwydrwydd dyladwy yn golygu arfer gofal rhesymol wrth ymgymryd â gwaith, casglu nwyddau neu gontractio gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys cael a defnyddio gwybodaeth berthnasol a dibynadwy sy'n caniatáu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, proffesiynol a rheoleiddio eraill

## Eiddo deallusol

Gall hawliau eiddo deallusol fod yn berthnasol i ddulliau arloesi rydych chi'n eu datblygu neu'r rhai rydych chi'n ystyried eu mabwysiadu. Dylid ystyried atal camfanteisio'n amhriodol ar ddatblygiadau a sicrhau bod eiddo deallusol eraill yn cael ei barchu wrth werthuso cynigion i'w mabwysiadu. Gall trwyddedu fod yn berthnasol, a all fod â goblygiadau o ran adnoddau.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fframwaith yw Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cefnogi sut mae sefydliadau ac unigolion yn rheoli'r broses o drin gwybodaeth. Mae'n berthnasol i wybodaeth sensitif a phersonol am weithwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i wybodaeth sy'n gysylltiedig â busnes y sefydliad. Mae'n gosod y safonau ar gyfer rheoli'r holl wybodaeth ac yn darparu'r offer i gyflawni hyn.

## Risg

Mae pob newid a dull arloesi yn cyflwyno risg. Mae lefelau risg derbyniol yn gallu amrywio yn ôl y sefyllfa. Trwy reoli a lliniaru risg, er enghraifft, gan ddefnyddio cofnod risg, gellir deall problemau posibl, a rhoi mesurau lliniaru yn eu lle.

## Cael gafael ar gymorth

Mae gan lawer o sefydliadau arbenigwyr yn y gwahanol agweddau ar lywodraethu, a allai gynnig cyngor a chefnogaeth i chi. Lle mae posibilrwydd o batent, dylech ofyn am gyngor arbenigol ar frys